Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Medra**

**Canolfan Plant**
**Ffordd Coleg**
**Ion Talwrn**
**Llangefni**
**LL77 7LP**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn âMeithrinfa Medra

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Meithrinfeydd Cymru Cyfyngedig |
| Lleoedd cofrestredig | 119 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 10 Mai 2023 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Na |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi ymgartrefu ac yn hyderus i sgwrsio ac i rannu eu syniadau. Maent yn gwneud ffrindiau ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd. Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt a gallent wneud dewisiadau am sut i dreulio eu hamser.

Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn siarad â nhw mewn modd cynnes a chyfeillgar.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymroddedig i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol, ond mae angen iddynt sicrhau eu bod yn ymateb yn amserol i unrhyw faterion diogelu.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod staff fyn cael eu cefnogi yn gyson a bod digon o gyfleoedd i drafod unrhyw bryderon neu anghenion hyfforddiant. Mae gweithdrefnau addas mewn lle ar gyfer ymateb i ddamweiniau a digwyddiadau, ond mae angen sicrhau bod unrhyw argymhellion yn cael eu gweithredu’n amserol.

## Llesiant

Mae’r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y lleoliad. Maent yn hyderus i wneud penderfyniadau am sut i dreulio eu hamser ac yn symud yn rhwydd o gwmpas y gweithgareddau a dilyn eu diddordebau. Mae’r plant yn awyddus ac yn hyderus i rannu eu syniadau, ateb cwestiynau a sgwrsio â’r staff, gan wybod y byddant yn gwerthfawrogi’r hyn sydd ganddynt i’w ddweud. Er enghraifft, maent yn hyderus i ofyn am fwy o fwyd amser byrbryd ac i sgwrsio â’r staff am eu diddordebau neu eu bywydau gartref.

Mae gan y plant ymdeimlad o sicrwydd gan eu bod yn gyfarwydd gyda’r trefniadau arferol ac yn derbyn gofal gan staff y maent wedi ffurfio cydberthynas gynnes â nhw. Maent yn teimlo’n gyfforddus yn gofyn i’r staff am gysur pan fydd angen. Er enghraifft, trwy godi eu dwylo i ofyn i’r staff eu cofleidio os ydynt yn ansicr wrth ddeffro. Mae’r plant yn hyderus i ofyn am gymorth pan mae angen, er enghraifft wrth ofyn i staff i estyn teganau sydd allan o’u cyrraedd neu i ofyn am gymorth i wisgo’r dillad yn yr ardal chwarae rôl. Mae’r plant yn awyddus i gynnwys eu ffrindiau a’r staff yn eu chwarae ac i rannu eu llwyddiannau.

Mae’r plant yn gwneud ffrindiau ac yn sgwrsio gyda’i gilydd yn ystod amser rhydd ac amser cinio, gan chwerthin a gwenu wrth chwarae. Maent yn chwarae’n dda gyda’i gilydd, yn rhannu teganau, yn cymryd eu tro ac yn cydweithio i gwblhau tasgau’n dda. Er enghraifft, wrth chwilio am ddail a blodau tu allan i greu arddangosfa natur roedd pawb yn awyddus i helpu chwilio am yr eitemau ac yn cymryd tro i’w hychwanegu at y bwced. Maent yn mwynhau eu chwarae ac yn ffocysu am gyfnodau ar dasgau. Er enghraifft, wrth ganolbwyntio’n dda tra’n defnyddio’r offer yn y twb dŵr, gan arllwys a chodi’r dŵr yn ofalus. Maent hefyd yn dangos gofal tra’n defnyddio rholeri patrymau gwahanol wrth arbrofi gyda’r paent.

Mae’r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth trwy gwblhau tasgau drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn dysgu i dacluso’r teganau ar ddiwedd gweithgareddau, yn bwydo eu hunain ac yn dod yn fwy annibynnol wrth sychu eu trwynau a golchi eu dwylo.

## Gofal a Datblygiad

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r staff yn deall gweithdrefnau'r lleoliad i sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn iach. Mae nifer digonol o staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ac mae unrhyw ddamweiniau a digwyddiadau sy'n digwydd yn cael eu cofnodi'n briodol. Fodd bynnag, nid yw’r cofnodion hyn bob amser yn cael eu cwblhau yn ddwyieithog fel bo’n briodol er mwyn sicrhau bod rhieni yn deall y cynnwys cyn eu llofnodi. Mae'r staff yn gwybod y gweithdrefnau cywir i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn ac maent wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant.

Mae gan y staff gydberthnasau cadarnhaol â’r plant; maent yn siarad â nhw mewn ffordd garedig a thawel ac yn darparu cysur a sicrwydd pan fydd eu hangen ar blant. Maent yn delio ag unrhyw mân anghytundebau neu ymddygiad anaddas mewn ffordd tawel a thyner ond gan sicrhau bod plant yn deall beth sy’n ddisgwyliedig ohonynt. Er enghraifft, trwy dynnu sylw plant neu eu hatgoffa sut i rannu a bod yn glên ac eraill pan fydd unrhyw fân anghytundebau yn digwydd. Mae'r staff yn canmol y plant yn aml drwy gydol y dydd i'w hannog i ryngweithio ac ymddwyn yn gadarnhaol.

## Yr Amgylchedd

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn ystod yr arolygiad yma. Byddwn yn edrych ar yr amgylchedd yn ystod yr arolygiad llawn nesaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod staff wedi derbyn hyfforddiant perthnasol i gwblhau eu dyletswyddau yn briodol. Maent yn sicrhau bod gan staff hyfforddiant diogelu gyfredol er mwyn deall eu cyfrifoldebau i adrodd unrhyw bryderon am blentyn ac mae polisi gyfredol mewn lle er mwyn hybu dealltwriaeth y staff. Fodd bynnag, nid ydi'r polisi yn cael ei ddilyn yn brydlon bob amser drwy adrodd i'r gwasanaethau cymdeithasol yn ddi-oed. Mae hyn wedi ei nodi fel maes i wella.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod staff yn derbyn cefnogaeth gyson drwy gynnal cyfarfodydd goruchwyliaeth yn reolaidd. Maent hefyd yn rhoi cyfle i'r staff drafod unrhyw faterion sy'n codi yn ystod cyfarfodydd staff rheolaidd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymateb yn addas i unrhyw ddamweiniau a digwyddiadau drwy gynnal ymchwiliadau a llunio cynllun gweithredu priodol. Fodd bynnag, nid yw'r argymhellion yn cael eu gweithredu'n amserol bob amser.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 22 | Nid yw'r darparwr wedi dilyn eu polisi diogleu yn effeithiol yn dilyn dau ddigwyddiad yn y lleoliad lle bu oedi cyn adrodd i'r awdurdod lleol yn dilyn y digwyddiadau hyn. The provider did not implement their own safeguarding policy effectively following two incidents at the setting where there was a delay in reporting these incidents to the local authority safeguarding team. | Newydd |

Lle byddwn yn nodi nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Argymhellion ar gyfer Cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad (argymhellion) |
| | Ni nodwyd unrhyw Argymhellion SGC yn yr arolygiad hwn |

Where we think it helpful, we may make best practice recommendations. These are to encourage settings that are doing well to become even better at helping children thrive.

| Arfer Gorau |
|---|
| Argymhelliad (argymhellion) |
| Labelu bocsys gyda lluniau a geiriau er mwyn hybu annibyniaeth y plant ieuengaf. Labelling boxes with words and pictures to aid younger children's independence. |
| Cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn ddwyieithog fel bo pob rhiant yn deall cynnwys y cofnodion hyn cyn eu harwyddo.  Complete accidnet and incident records bilingually so parents understand the content of these records before singing them. |
| Sicrhau bod unrhyw argymhellion yn dilyn ymchwiliadau mewnol i ddamweiniau a digwyddiadau cael eu gweithredu’n amserol.  Ensuring any recommendations following internal investigations into accidents and incidents are implemented in a timely manner. |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/06/2024